Cyllid & Tollau EM

# Credydau treth – cais ffurfiol am wybodaeth

## Ynglŷn â'r wybodaeth rydym wedi gofyn amdani

Nid ydych wedi rhoi'r wybodaeth rydym wedi gofyn amdani i ategu'ch hawliad am gredydau treth, eich dyfarniad o gredydau treth neu'ch hawl i gredydau treth.

## Problemau wrth roi'r wybodaeth

Rhowch wybod i ni os oes gennych reswm da dros beidio â rhoi'r wybodaeth, neu os nad yw'n bodoli. Byddwn yn gwrando ar yr hyn yr ydych yn dweud ac yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i ateb.

Gallai rheswm da dros beidio â rhoi gwybodaeth gynnwys y canlynol:

- mae'ch dogfennau wedi'u dinistrio gan dân neu lifogydd, neu wedi'u colli oherwydd lladrad, ac ni allwch gael rhai yn eu lle mewn pryd
- mae gennych salwch difrifol neu amgylchiadau personol eraill sy'n eich rhwystro rhag anfon yr wybodaeth atom

Nid yw bod yn rhy brysur i anfon yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn rheswm da.

## Yr hyn a fydd yn digwydd os na fyddwch yn cysylltu â ni

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â ni nawr gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnom. Rhowch wybod i ni a ydych yn cael problemau wrth ei rhoi. Os na fyddwch yn anfon yr wybodaeth hon, mae'n bosibl y byddwn yn gostwng eich credydau treth neu'n rhoi'r gorau i'w talu i chi:

- os byddwn yn stopio'ch credydau treth, ni fyddwch yn gallu hawlio credydau treth eto – bydd angen i chi hawlio naill ai:
  - Credyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol
  - Credyd Pensiwn, ewch i www.gov.uk/credyd-pensiwn
- os byddwn yn gostwng eich credydau treth, mae'n bosibl y byddwch yn gorfod ad-dalu'r credydau treth a ordalwyd i chi.

Mae'n bosibl y byddwn yn gostwng eich credydau treth i ad-dalu'r credydau treth a ordalwyd i chi.

Gallwn hefyd ofyn i dribiwnlys annibynnol godi cosb arnoch o hyd at £300.

Gallwn wedyn godi cosb bellach arnoch o hyd at £60 y dydd tan i chi anfon yr wybodaeth atom.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â ni ar unwaith. Os nad ydych yn siŵr o'r hyn y dylech ei wneud, awgrymwn eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn i chi benderfynu'n derfynol.

## Ynglŷn â'n penderfyniad

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad os ydym yn:

- gofyn i chi dalu cosb
- diwygio'ch dyfarniad

Gelwir hyn yn ailystyriaeth orfodol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut i ofyn am ailystyriaeth yn ein llythyr o benderfyniad.

Mae'r daflen WTC/AP, 'Beth i'w wneud os credwch fod eich Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith yn anghywir', yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut i ofyn am ailystyriaeth:

- ewch i www.gov.uk/government/publications/child-tax-credit-and-working-tax-credit-appeal-form.cy
- ffoniwch ein llinell gymorth os nad ydych yn gallu cyrchu'r rhyngrwyd

Os ydych dal i fod yn anfodlon ar ôl yr ailystyriaeth, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol. Bydd ein Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol yn rhoi gwybod i chi sut i wneud hyn.

Os ydych yn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol a bod eich ailystyriaeth orfodol neu'ch apêl yn llwyddiannus, byddwn ond yn gallu talu credydau treth i chi hyd at y diwrnod cyn i chi wneud eich hawliad am Gredyd Cynhwysol. Mae hyn oherwydd bod Credyd Cynhwysol yn disodli credydau treth ac os ydych yn gwneud hawliad i Gredyd Cynhwysol, mae'n rhaid i gredydau treth ddod i ben, hyd yn oed os nad oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol.

### Help gyda chredydau treth

Os oes gennych gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r swyddfa CThEM a ddangosir yn y llythyr eglurhaol.

Ar gyfer ein horiau agor:
ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/welsh-language-helplines

### Cael cyngor

Gallwch gael cyngor gan sefydliad neu ymgynghorydd proffesiynol. Gallwch hefyd ofyn i'r ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg neu gallwch ddod o hyd iddynt yn 'Y Llyfr Ffôn'

### Llywodraeth agored

Mae'r *Claimant Compliance Manual* yn cynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â'n gwaith yn y maes hwn.

Ewch i GOV.UK a chwilio am *Claimant Compliance Manual*

### Cwynion

Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwyno i'w chael yn www.gov.uk/cwyno-am-cthem

### Eich hawliau a rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEM' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

### Yr Iaith Gymraeg

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM am ragor o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Gwasanaethau Digidol CThEM
Ebrill 2021 © Hawlfraint y Goron 2021